Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Y Cyfansoddiad – Y Cwnsler Cyffredinol

**Ebrill 2007**

## Y Cwnsler Cyffredinol

Mae adran 49 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("y Ddeddf") yn darparu ar gyfer penodi Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn gweithredu fel ei gynghorydd cyfreithiol a'i gynrychiolydd yn y llys.[1] Mae'r rôl hon yn cyfateb i rôl y Twrnai Cyffredinol a'r Cyfreithiwr Cyffredinol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## Beth sydd wedi newid?

Roedd swydd flaenorol y Cwnsler Cyffredinol yn swydd anstatudol ac yn uwch swydd yn y gwasanaeth sifil.[2] Yn 2003 disodlwyd Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a hynny o dan arweiniad Cyfarwyddwr. Mae'r Cwnsler Cyffredinol newydd o dan Ddeddf 2006 yn swyddogaeth newydd a bydd yn benodiad gwleidyddol.

## Telerau'r penodiad

Penodir y Cwnsler Cyffredinol gan y Frenhines yn dilyn argymhelliad Prif Weinidog Cymru ond rhaid i'r argymhelliad ar gyfer y penodiad gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad. Nid oes yn rhaid i'r person a benodir fod yn Aelod o'r Cynulliad, er bod modd i Aelod Cynulliad wasanaethu fel Cwnsler Cyffredinol (gwaherddir yn benodol y Prif Weinidog, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion rhag gwneud hynny yn y Ddeddf). Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf yn disgrifio'r swydd fel un o statws gweinidog ond nid yw'r deiliad yn un o Weinidogion Cymru.[3]

Caiff y Prif Weinidog, gyda chytundeb y Cynulliad, argymell i'r Frenhines, ar unrhyw adeg, ddiswyddo'r Cwnsler Cyffredinol; caiff y Cwnsler gyflwyno'i ymddiswyddiad i'r Frenhines ar unrhyw adeg. Yn wahanol i Weinidogion Cymru a'r Dirprwy Weinidogion, nid oes yn rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol ymddiswyddo yn dilyn pleidlais o ddiffyg hyder yng Ngweinidogion

[1] *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* ( Pennod 32), s. 49.
[2] Daeth y newid yn y trefniadau yn sgil ymarfer recriwtio aflwyddiannus am Gwnsler Cyffredinol i gymryd lle'r deiliad cyntaf, Winston Roddick QC, pan ymddeolodd yn 2003. Mae modd gweld y manylion hyn mewn Adroddiad ar Benderfyniad a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 26 Chwefror 2004.
http://www.information.wales.gov.uk/archive/content/decisionreports/opengovt/appointment%20of%20counsel%20general.rtf
[3] *Deddf LLywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32), Nodiadau Esboniadol, paragraffau 230-234.

Cymru. Fodd bynnag, bydd ef neu hi yn peidio â dal y swydd pan gaiff Prif Weinidog ei enwebu o dan adran 47 (ond mae'n bosibl iddo gael ei ail-benodi gan y Prif Weinidog newydd).

Os yw swydd y Cwnsler Cyffredinol yn wag, neu os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn methu gweithio am unrhyw reswm, mae modd i'w swyddogaethau gael eu harfer gan berson a ddynodir gan y Prif Weinidog. Nid yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Frenhines na chytundeb y Cynulliad i'r dynodiad hwn. Fodd bynnag, mae'r cyfnod y mae modd i swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol gael eu harfer yn rhinwedd dynodiad o'r fath wedi'i gyfyngu i hyd at chwe mis a daw dynodiad i ben os caiff person ei enwebu i'w benodi'n Brif Weinidog.

## Y Cwnsler Cyffredinol yn cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad

Mae'r Rheolau Sefydlog newydd yn ei gwneud yn eglur y caiff y Cwnsler Cyffredinol ei drin yn yr un ffordd â Gweinidogion Cymru yn nhrafodion y Cynulliad.[4] Yr unig eithriad yw na chaiff Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad bleidleisio. Dywed Rheol Sefydlog 5.4:

> Os nad yw'r Cwnsler Cyffredinol yn Aelod, mae'r Rheolau Sefydlog yn gymwys i'r Cwnsler Cyffredinol fel y maent yn gymwys i Aelodau a chaiff y Cwnsler Cyffredinol gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad ond ni chaiff bleidleisio.[5]

Disgwylir i'r Cwnsler Cyffredinol, pa un a yw'n Aelod Cynulliad neu beidio, ateb cwestiynau llafar ac ysgrifenedig a gwneud datganiadau llafar neu ddatganiadau ysgrifenedig.[6]

Mae adran 34 o'r Ddeddf yn ymdrin â'r Cwnsler Cyffredinol yn cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad ac mae'n cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r Cwnsler Cyffredinol i wrthod darparu dogfennau neu i ateb cwestiynau am achosion troseddol penodol (mae'n bosibl bod y Cwnsler Cyffredinol yn cynnal achosion troseddol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru) os yw'n ystyried y byddai gwneud hynny'n niweidio trafodion yr achos hwnnw neu fel arall ei fod yn groes i les y cyhoedd.

## Achosion cyfreithiol

O dan adran 67 o'r Ddeddf, mae modd i'r Cwnsler Cyffredinol, fel cynrychiolydd Gweinidogion Cymru yn y llysoedd, gychwyn, amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â materion ynghylch unrhyw swyddogaethau sy'n cael eu harfer gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, cyn belled ag y bo'r Cwnsler Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo neu warchod lles y cyhoedd.

---

[4] Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog, Adroddiad, Ionawr 2007, RhS 5.
http://www.wales.gov.uk/documents/cms/2/DocumentsLaid/37B1A026000BF4FD0000436C00000000/23869e1c4a8e1c80d44933cac4bc6115.pdf
[5] Ibid. RhS 5.4.
[6] Ibid., RhS 6,7, 9.

## Y Goruchaf Lys yn craffu ar Fesurau arfaethedig y Cynulliad

Mae adran 99 yn darparu dull i'r Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gael penderfyniad gan y Goruchaf Lys ynghylch a yw Mesurau arfaethedig y Cynulliad neu ddarpariaethau penodol Mesurau arfaethedig y Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Caiff hyn ei wneud yn unig o fewn y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Mesur ei basio gan y Cynulliad.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Gyfres Gyfansoddiadol, cysylltwch â **Dr Alys Thomas** (Alys.Thomas@Wales.gsi.Gov.UK), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

- Rhestr gyflawn o **Hysbysiadau hwylus**
- **Geirfa**

**MRS 07/0720 Dr Alys Thomas**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk**